

Polisi Iaith.

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Amcanion sylfaenol y Cyngor yw

- hyrwyddo'r defnyddio'r Gymraeg ym mywyd ardal y Cyngor gan fod yn angor i'r iaith yn ei hadfywiad ledled Cymru.
- hyrwyddo'r defnyddio'r iaith Gymraeg gan gyrff cyhoeddus eraill sy'n ymwneud a'r Cyngor a chefnogi a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg gan gyrff a busnesau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ardal y Cyngor Cymuned.
- sefydlu'r Gymraeg fel iaith swyddogol gweinyddiad mewnol y Cyngor.
- galluogi pawb sy'n defnyddio neu'n cysylltu â'r Cyngor, i wneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis personol.

Cyfarfodydd y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn trafod materion yn ei cyfarfodydd yn yr Iaith Gymraeg. Gall person sydd ddim yn siarad Cymraeg anerch y Cyngor yn Saesneg, ond bydd disgwyl iddynt ddarparu gwasanaeth Cyfieithydd (a rei gost ei hun) os dymuna wrando ar drafodaeth'r Cyngor.

Gohebiaeth ysgrifenedig.

Gall unrhyw un ohebu a'r Cyngor yn Gymraeg neu yn Saesneg at atebir pob gohebiaeth bersonol yn yr iaith y mae'n cael ei hanfon trwy lythyr wedi ei llofnodi. Ar ôl siarad wyneb yn wyneb neu dros y ffon yn y Gymraeg, bydd unrhyw ohebiaeth wedyn yn y Gymraeg oni bai fod yr unigolyn yn dymuno cael gohebiaeth Saesneg.

Cyfarfodydd cyhoeddus.

Mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan y Cyngor gall unrhyw un siarad Cymraeg neu Saesneg yn o lei dymuniad. Ni fydd y Cyngor wedi darparu unrhyw wasanaeth cyfieithu os na cafwyd rhybudd priodol cyn y cyfarfod.

Hysbysiadau cyhoeddus ac yn y Wasg.

Bydd pob hysbyseb cyhoeddus neu i'r Wasg a gyhoeddir gan y Gyngor yn ddwyieithog . Bydd y fersiwn Gymraeg uwchben y fersiwn Saesneg neu, lle bo'r testun yn gyfochrog, bydd y fersiwn Gymraeg ar y chwith. Yr unig eithriad i hun fydd Cofnodion y cyfarfodydd misol a fydd yn cael eu cyhoeddi yn uniaith Gymraeg

Arwyddion.

Bydd pob arwydd a chodi'r gan y Cyngor, neu ar ei ran, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Pan fydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd byddant yn gyfartal o ran ffurf a bydd y Gymraeg nail ai uwchben y Saesneg neu os ydyw'r ddwy iaith yn gyfochrog, ar y chwith.

Llandderfel Community Council **Language Policy**

The Council conducts its business in Welsh. Minutes can be made available in English on application to the Clerk, within a reasonable period and on payment of the relevant costs.

Written correspondence.

Any correspondence sent to the Council will receive a reply in whatever language the correspondence was written in e.g. Welsh/English.

Council Meetings

If a person who does not speak Welsh wishes to make a presentation on a matter on the Agenda, he/she is welcome to do so in English. If he/she wishes to listen to the rest of the meeting, he/she is expected to provide his/her own interpreter (at his/her own cost).

Public Meetings.

If the Council holds a public meeting, the Council will be responsible for providing a translation service. However, appropriate notice is needed prior to the meeting.